CYFLOG CYFARTAL

CRYNODEB ARCHWILIO ARIANNOL

2003

dti

A DTI SERVICE

Companies House

for the record

Tŷ'r Cwmnïau, Asiantaeth Weithredol o dan y DTI

Cyflog Cyfartal, Crynodeb Archwilio Ariannol - 2003

Yn sgil cyhoeddi 'Just Pay', Adroddiad Tasglu'r Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC), yn Ionawr 2001, bu i'r Llywodraeth rwymo adrannau ac asiantaethau i adolygu eu systemau cyflog.

Mae'n ofynnol i Dŷ'r Cwmnïau yntau, fel un o amodau dirprwyo'r cyfrifoldeb am gyflogau, wirio cydraddoldeb ei systemau cyflog (daethom yn gyfrifol am fframwaith graddau a chyflog ein gweithwyr, ac eithrio Uwch-weision Sifil (SCS)) a chydymffurfio â Chod Ymarfer y Comisiwn Cyfle Cyfartal lle mae cyflog cyfartal yn y cwestiwn fel rhan o arolwg tair-blynyddol rheolaidd.

Pa gamau a gymerodd Tŷ'r Cwmnïau?

Cynhaliodd Tŷ'r Cwmnïau arolwg cychwynnol o'i system cyflog a gwobrwyon ym Mawrth 2001. O ganlyniad i'r arolwg hwn, gweithredwyd system gyflog drosiannol a ailgyflwynodd gynnydd tuag at gyfeirbwynt (islaw brig y raddfa gyflog) ar sail hyd gwasanaeth o fewn y radd.

Ymgymerwyd wedyn ag ymarferiad cyfraddau'r Farchnad cyn cylchdro cyflog 2002 i gymharu cyflogau swyddi tebyg ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae'r prif ysgogiadau a bennwyd gan Fwrdd Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer newid y polisi Cyflog a Gwobrwyon yn syrthio i bedwar categori bras: cydraddoldeb, fframwaith y graddau, gallu i gystadlu yn y farchnad, a threfniadau ar gyfer taliadau bonws yng nghyswllt cyflawniad.

Yr oedd Cynnig Cyflog Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer Awst 2002 – Gorffennaf 2005 bellach yn cynnwys fframwaith graddau mwy hyblyg, cynnydd tuag at gyfradd darged (ar sail cyfraddau'r farchnad) o fewn cyfnod diffiniedig, ac yn cael gwared â gorgyffwrdd rhwng cyflog y gwahanol raddau. Bwriedid i'r holl gamau hyn ddileu, mor bell â phosibl, unrhyw anghydraddoldeb a allai fodoli yn y fframwaith gwreiddiol.

Cwblhawyd adroddiad archwiliad ariannol yng nghyd-destun Cyflog Cyfartal yn Ebrill 2003 yn sgil gweithredu'r system cyflogau a graddau newydd (2002/5). Lluniwyd **Cynllun Gweithredu** fel rhan o'r arolwg hwn a sefydlwyd gweithgor, yn cynnwys cynrychiolwyr yr Undeb Llafur, fydd yn cymeradwyo ac yn blaenoriaethu rhaglen waith wedi ei seilio, i ddechrau, ar y Cynllun Gweithredu.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn parhau i ddatblygu gydag amser wrth i'r rheolwyr a'r Undeb Llafur ddod i adnabod agweddau eraill y mae eisiau mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â rhai'n deillio o gyfarwyddebau canolog, newidiadau i'r ddeddfwriaeth a chanlyniadau archwiliadau ariannol blynyddol o'r drefn gyflog.

Cynllun Gweithredu Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer Cyflog Cyfartal - 2003

Cam Un: llunio polisi cyflog cyfartal a gaiff ei gytuno â'r Undeb Llafur a'r staff, a'i ddosbarthu i bawb. [Mae gan yr EOC gynddelw bolisi y gall Tŷ'r Cwmnïau fod am ei hystyried].

Cam Dau: dylem weithredu fel a ganlyn:

- parhau i fonitro cydraddoldeb cyflog ar sail flynyddol;
- edrych yn fanylach ar agweddau eraill ar wahaniaethu annheg o ran cyflog, h.y. anabledd, lleiafrifoedd ethnig ac oedran;
- gwirio cydraddoldeb ein systemau graddau a recriwtio, a bod yn siŵr nad oes mecanwaith gwahaniaethu cudd;
- ystyried pa gamau y gall fod eu hangen i unioni tan-gynrychiolaeth merched o fewn Band F;
- sicrhau nad yw trefn yr Arolwg Datblygiad Personol yn cynnwys rhagfarn yn erbyn merched, gweithwyr rhan-amser, rhai sydd wedi cymryd saib gyrfa, na lleiafrifoedd eraill;
- sicrhau nad yw'n system ddyrchafu yn cynnwys unrhyw ragfarn gudd yn erbyn y categorïau uchod;
- mae angen i'r camau a gymerir fod yn gyson â Chyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet yng nghyswllt cynnal arolygon cyflog cyfartal.

Lle mae'n **system gyflog** yn y cwestiwn, dylem:

- sicrhau bod y system, gydag amser, yn lleihau nifer y bobl sydd uwchlaw'r gyfradd darged ac wedi cyrraedd yr uchafbwynt personol;
- gwirio cydraddoldeb unrhyw gynnig cyflog newydd cyn anfon yr atgyfeiriad ymlaen i'r DTI.

Mae'n system bresennol eisoes wedi rhoi sylw i fwyafrif yr ystyriaethau sy'n arwain at anghydfod ar bwnc cyflog cyfartal, yn gymaint â bod gennym gyfradd darged sy'n seiliedig ar gyfraddau marchnad cystadleuol y gall pawb anelu at eu cyrraedd o fewn amser rhesymol. Nid oes gorgyffwrdd ac ni roir codiadau cyfunol i rai sydd uwchlaw'r gyfradd darged derfynol.